Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

12 Gorffennaf 2018

Annwyl John,

BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU)

Amserlen

Ysgrifennais atoch ar 17 Ebrill 2018, i roi gwybod i chi fy mod wedi gofyn am estyniad gan y Pwyllgor Busnes i'r amserlen ar gyfer y Bil Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus (y Bil), hyd nes y byddai Penderfyniad Ariannol yn cael ei gyflwyno.

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cyflwyno'r cynnig, y disgwylir cynnal dadl arno ddydd Mawrth 17 Gorffennaf. Yn dilyn ymgynghori â chi, ac yn amodol ar gytuno ar y cynnig, rwy'n bwriadu ysgrifennu amserlen arfaethedig newydd i'r Pwyllgor Busnes.

O ystyried llwyth gwaith sylweddol ein pwyllgorau ni ein dau yn nhymor yr hydref gyda chylch y gyllideb, a deddfwriaeth arall y mae eich Pwyllgor chi yn ei ystyried, cynigiaf fod trafodion Cyfnod 2 yn cael eu cynnal ym mis Ionawr 2019. Os gall rhaglen waith eich Pwyllgor gynnwys hyn, gallaf ysgrifennu'n ffurfiol at y Pwyllgor Busnes. Gweler yr amserlen ddiwygiedig arfaethedig yn yr atodiad.

Ymateb Argymhellion Cyfnod 1 y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar y cynnydd a wnaed ar yr argymhellion a gynigiwyd gan eich Pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1. Mewn perthynas ag argymhellion 2, 3, 5, 6, 7, 8 a 9, a oedd yn awgrymu i mi gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2, rwyf wedi ystyried y materion hyn ac wedi trafod gwelliannau drafft gyda'r Pwyllgor Cyllid ar 17 Mai 2018. Fodd bynnag, gan fod rhai o'r meysydd hyn yn gorgyffwrdd â thrafodaethau sy'n digwydd gyda Llywodraeth Cymru, byddaf yn pwyso a mesur y wybodaeth cyn cyflwyno unrhyw welliannau.

Mewn perthynas ag argymhellion 11 i 19, a oedd yn gofyn am newidiadau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o fewn y Memorandwm Esboniadol, mae'r newidiadau hyn wedi cael eu gwneud. Ni fyddaf yn cyflwyno'r Memorandwm Esboniadol yn ffurfiol tan ar ôl trafodion Cyfnod 2. Fodd bynnag, meddyliais y byddai o gymorth i Aelodau gael gweld y newidiadau cyn trafod y Penderfyniad Ariannol ac felly rydym wedi cyhoeddi'r Memorandwm Esboniadol diwygiedig heddiw, ac fe fydd ar gael ar wefan y Cynulliad.

Pe bai cynnig y Penderfyniad Ariannol yn cael ei basio, edrychaf ymlaen at ymddangos gerbron eich Pwyllgor fel rhan o drafodion Cyfnod 2.

Yn gywir

Simon Thomas AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad

Amserlen ddiwygiedig - Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Carreg filltir	DYDDIAD
1. Cyflwyno'r Bil	*Dydd Llun 2 Hydref 2017*
2. Terfyn amser ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1 y Pwyllgor	*Dydd Gwener 9 Mawrth 2018*
3. Diwedd Cyfnod 1 – Dadl Cyfarfod Llawn ar egwyddorion cyffredinol y Bil	*Dydd Mercher 21 Mawrth 2018*
4. Dechrau Cyfnod 2	*Dydd Iau 22 Mawrth 2018*
5. Pasio'r Penderfyniad Ariannol	*Dydd Mawrth 17 Gorffennaf 2018*
6. Diwedd Cyfnod 2 – terfyn amser ar gyfer Cyfnod 2 y Pwyllgor	Dydd Gwener 1 Chwefror 2019
7. Dechrau Cyfnod 3[1]	Dydd Llun 4 Chwefror 2019
8. Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn[2]	Dydd Mercher 6 Mawrth 2019
9. Cyfnod 4 yn y Cyfarfod Llawn	Dydd Mercher 13 Mawrth 2019
10. Cydsyniad Brenhinol	I'w gyhoeddi

[1] Mae Cyfnod 3 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 2 ddod i ben.

[2] Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau Cyfnod 3 a dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion Cyfnod 3.